Nodiadau am awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith; am brif ddyletswyddau barnwr sy'n eistedd yn yr Adran Siawnsri ac yn Adran Mainc y Frenhines; a nodiadau am awdurdodaeth Adran Mainc y Frenhines a'r Adran Siawnsri.

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i darparu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder:

Awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith

Llysoedd Sirol

1. Mae awdurdodaeth y llys sirol yn gwbl statudol ac mae'n ymwneud â holl faes cyfraith sifil a chyfraith teulu fwy neu lai. Mae awdurdodaeth gyffredinol cyfraith sifil yn cydredeg ar y cyfan ag awdurdodaeth yr Uchel Lys.

2. Mae nifer o statudau'n rhoi awdurdodaeth unigryw i'r llysoedd sirol. Mae'r rhain yn ymdrin â meysydd pwysig o waith y llysoedd sirol, er enghraifft, bron pob un achos dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr, camau gan fenthycwyr morgais am feddiant a chamau gan landlordiaid ac awdurdodau lleol dan y Deddfau Rhent a Deddfau Tai 1985 ac 1988.

3. Yn ychwanegol at yr awdurdodaeth gyffredinol, mae gan tua 80% o lysoedd sirol awdurdodaeth mewn ansolfedd. Mae nifer fechan o Farnwyr Cylchdaith hefyd ag awdurdodaethau arbenigol dan, er enghraifft, Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

4. Mewn cyfraith teulu hefyd mae'r awdurdodaeth wedi'i rhannu un ai drwy statud neu drwy gyfarwyddyd ymarfer. Mewn rhai materion, megis mabwysiadu, mae gan y llysoedd sirol awdurdodaeth gydredol â'r Uchel Lys. Mewn materion eraill mae gan y llysoedd sirol awdurdodaeth lwyr, e.e. pob achos ysgaru bron iawn.

5. Mae'r llysoedd sirol yn rhannu awdurdodaeth gyda'r Uchel Lys a'r Llys Achosion Teulu mewn ceisiadau dan Ddeddf Plant 1989, a chaiff y gwaith ei drin ar y lefel briodol yn unol â chyfarwyddiadau dyrannu. Yn y llysoedd sirol lle bo perthynas rhwng achosion o'r fath ac achosion cyfraith gyhoeddus megis gorchmynion gofal a goruchwylio, cânt eu gwrando gan Farnwyr Cylchdaith enwebedig yn eistedd mewn Canolfannau Gofal ac ymdrinnir â phob cyfarwyddyd mewn materion o'r fath gan Farnwyr Rhanbarth enwebedig neu Farnwyr Cylchdaith yn eistedd yn y Canolfannau Gofal.

Dirprwy Farnwr yr Uchel Lys

Mae gan Gofiaduron sy'n eistedd yn yr Uchel Lys dan adran 9(1) Deddf y Goruchel Lys 1981 hawl i arfer yr un awdurdodaeth â Barnwr yr Uchel Lys ac eithrio eistedd yn y Llys Apêl. Yn ymarferol, byddant yn gwrando ar achosion sifil yn y lle cyntaf.

Swyddfa Barnwr yr Uchel Lys

Prif ddyletswyddau barnwr sy'n eistedd yn yr Adran Siawnsri

Dyma brif weithgareddau Barnwr yn yr Adran Siawnsri:

A. Paratoi ar gyfer treial a rheoli achos

- Darllen a dirnad papurau'r achos cyn i wrandawiad, neu'r treial, ddechrau.

- Mae gofyn i'r llys hyrwyddo amcan pennaf y trefniadau rheoli achosion newydd drwy reoli achosion yn ddiwyd. Mae diwyd-reoli achosion yn cynnwys:
    - ♦ annog y partïon i gydweithredu â'i gilydd wrth gynnal yr achos;
    - ♦ nodi'r materion i'w hystyried yn gynnar yn y broses;
    - ♦ penderfynu'n ddiymdroi pa faterion y mae angen ymchwilio'n llawn iddynt a'u hanfon i dreial a delio â'r gweddill yn ddiannod;
    - ♦ penderfynu ar drefn datrys y materion;
    - ♦ annog y partïon i ddefnyddio trefn amgen i ddatrys anghydfod os yw'r llys o'r farn bod hynny'n briodol a hwyluso'r ffordd i ddefnyddio trefn o'r fath;
    - ♦ helpu'r partïon i setlo'r achos yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol;
    - ♦ pennu amserlenni neu reoli hynt yr achos fel arall;
    - ♦ ystyried a yw manteision tebygol cymryd unrhyw gam neilltuol yn cyfiawnhau'r gost o'i gymryd;
    - ♦ delio â chynifer â phosibl o agweddau'r achos ar yr un achlysur;
    - ♦ delio â'r achos heb fod angen i'r partïon ddod i'r llys;
    - ♦ defnyddio technoleg; a
    - ♦ rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod treial achos yn mynd rhagddo'n gyflym ac yn effeithlon.

B. Llywyddu dros achosion llys

- Rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r ymarfer perthnasol) y modd y cynhelir achosion.
- Sicrhau bod y partïon yn cael yr un chwarae teg, a sicrhau, pa un a ydynt wedi'u cynrychioli ai peidio, y galluogir nhw i gyflwyno'u hachosion, ac iddynt gael eu hystyried, cyn llawned a theced â phosibl;
- Ym mhob achos, hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder;
- Delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur â:
    - swm yr arian sydd dan sylw;
    - pwysigrwydd yr achos;
    - cymhlethdod y materion; a
    - sefyllfa ariannol bob parti - a neilltuo cyfran briodol o adnoddau'r llys i'r achos hwn, ac ystyried yr angen i neilltuo adnoddau i achosion eraill yr un pryd.
- Cynnal awdurdod ac urddas y Llys.
- Gwneud nodyn cywir o rannau perthnasol y dystiolaeth.
- Penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith a threfniadaeth a allai godi yn ystod achos.

C. Dyfarnu

- Penderfynu ar achosion drwy ganfod y ffeithiau, cymhwyso'r gyfraith berthnasol iddynt a rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu (neu wedi'i neilltuo, os oes angen).
- Penderfynu ar apeliadau, ceisiadau a wrthwynebir a materion eraill drwy ystyried y papurau a'r dystiolaeth a gyflwynir mewn unrhyw wrandawiad a, lle

bo hynny'n briodol, gwneud canfyddiadau ffeithiol, cymhwyso'r gyfraith berthnasol a rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu.

- Asesu a dyfarnu iawndal a chostau, penderfynu ar y swm sydd i'w dalu a sut y mae i'w dalu, gwneud gorchmynion meddiannu a chosbi am ddirmygu neu dorri gorchmynion llys.
- Goruchwylio geiriad dyfarniadau a gorchmynion y Llys.

D. Apeliadau

- Gwrando apeliadau gan Feistri, Cofrestryddion Methdaliad a Barnwyr Rhanbarth.
- Gwrando apeliadau gan dribiwnlysoedd a llysoedd is.

E. Gwaith arall

Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys, er enghraifft:

- Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd i apelio.

Cyfrifoldebau eraill

F. Gwybod am ddatblygiadau cyfreithiol

- Mae angen i Farnwyr yr Uchel Lys fod yn ymwybodol o'r datblygiadau cyfreithiol diweddaraf. Mae hyn yn golygu cryn waith darllen nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r achosion y maent yn eu treialu.
- Mae angen i Farnwyr yr Uchel Lys fynychu seminarau gloywi a digwyddiadau tebyg gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol.

G. Dyletswyddau barnwrol a chyhoeddus eraill

- Caiff Barnwyr yn yr Adran Siawnsri eu penodi fel aelodau panel o gadeiryddion y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth.
- Mae dau Farnwr yr Adran Siawnsri yn gwasanaethu fel Barnwyr Goruchwylio'r Siawnsri, sy'n arfer cyfrifoldeb gweinyddol dros waith y Siawnsri y tu allan i Lundain.
- Gall Barnwyr yr Uchel Lys eistedd yn y Llys Apêl (Adran Sifil) fel Barnwyr ychwanegol y Llys hwnnw, ar gais yr Arglwydd Ganghellor.
- Mae'n bosibl y bydd Barnwyr yr Uchel Lys yn gwasanaethu o dro i dro ar bwyllgorau, ymchwiliadau a chyrff eraill lle mae gofyn am wasanaethau uwch aelod o'r farnwriaeth (e.e. Bwrdd Parôl, Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, ayb). Mae Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith wastad wedi bod yn Farnwr yr Uchel Lys ar secondiad i'r Comisiwn am gyfnod y swydd.

Prif ddyletswyddau barnwr sy'n eistedd yn Adran Mainc y Frenhines

Dyma brif weithgareddau Barnwr ym Mainc y Frenhines:

A. Paratoi ar gyfer treial a rheoli achos

- Darllen a dirnad papurau achos cyn i'r gwrandawiad neu'r treial ddechrau.
- Mae gofyn i'r llys hyrwyddo amcan pennaf y trefniadau rheoli achosion newydd drwy reoli achosion yn ddiwyd. Mae diwyd-reoli achosion yn cynnwys:
  - Annog y partïon i gydweithredu â'i gilydd wrth gynnal yr achos
  - Nodi'r materion i'w hystyried yn gynnar yn y broses

- ♦ Penderfynu'n ddiymdroi pa faterion y mae angen ymchwilio'n llawn iddynt a'u hanfon i dreial a delio â'r gweddill yn ddiannod
- ♦ Penderfynu ym mha drefn y mae penderfynu ar faterion
- ♦ Annog y partïon i ddefnyddio trefn amgen i ddatrys anghydfod os yw'r llys o'r farn bod hynny'n briodol a hwyluso'r ffordd i ddefnyddio trefn o'r fath
- ♦ Helpu'r partïon i setlo'r achos yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol
- ♦ Pennu amserlenni neu reoli hynt yr achos fel arall
- ♦ Ystyried a yw manteision tebygol cymryd unrhyw gam neilltuol yn cyfiawnhau'r gost o'i gymryd
- ♦ Delio â chynifer â phosibl o agweddau'r achos ar yr un achlysur
- ♦ Delio â'r achos heb fod angen i'r partïon ddod i'r llys
- ♦ Defnyddio technoleg
- ♦ Rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod treial achos yn mynd rhagddo'n gyflym ac yn effeithlon

Yn Llys y Goron:

- Cynnal gwrandawiadau rhagarweiniol er mwyn nodi a phenderfynu ar faterion trefniadaeth
- Gwneud penderfyniad o ran ceisiadau am fechnïaeth
- Chwarae rhan weithgar wrth benderfynu sut y dylid ymdrin â'r achos ac, fel sy'n briodol, rheoli ei hynt o'r adeg y'i traddodir hyd nes y rhoddir y ddedfryd

B. Llywyddu dros achosion llys

- Rheoli'r ffordd y caiff achosion eu cynnal (yn unol â'r gyfraith a'r ymarfer perthnasol); sicrhau bod partïon yn cael yr un chwarae teg, a sicrhau, pa un a ydynt wedi'u cynrychioli ai peidio, y galluogir nhw i gyflwyno'u hachosion, ac iddynt gael eu hystyried, cyn llawned a theced â phosibl
- Ym mhob achos, hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder
- Delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur â:
  - swm yr arian sydd dan sylw
  - pwysigrwydd yr achos
  - cymhlethdod y materion, a
  - sefyllfa ariannol bob parti a neilltuo cyfran briodol o adnoddau'r llys i'r achos, ac ystyried yr angen i neilltuo adnoddau i achosion eraill yr un pryd.
- Cynnal awdurdod ac urddas y Llys.
- Gwneud nodyn cywir o rannau perthnasol y dystiolaeth.
- Penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith a threfniadaeth a allai godi yn ystod achos.
- Crynhoi ar gyfer rheithgor a'u cyfeirio.

C. Dedfrydu

Yn Llys y Goron:

- Dedfrydu diffynyddion sydd wedi'u dyfarnu'n euog yn unol â'r gyfraith ac amgylchiadau'r achos.

D. Dyfarnu

Yn yr Uchel Lys:

- penderfynu ar achosion drwy ganfod y ffeithiau, cymhwyso'r gyfraith berthnasol iddynt a rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu (neu wedi'i neilltuo, os oes angen);
- penderfynu ar geisiadau a wrthwynebir a materion eraill drwy ystyried y papurau a'r dystiolaeth a gyflwynir mewn unrhyw wrandawiad a, lle bo hynny'n briodol, gwneud canfyddiadau ffeithiol, cymhwyso'r gyfraith berthnasol a rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu;
- asesu a dyfarnu iawndal a chostau, penderfynu ar y swm sydd i'w dalu a sut y mae i'w dalu, gwneud gorchmynion meddiannu a chosbi am ddirmygu neu dorri gorchmynion llys; a
- goruchwylio geiriad dyfarniadau a gorchmynion y Llys.

E. Apeliadau a Cheisiadau

Yn yr Uchel Lys:

- gwrando ar rai apeliadau gan Farnwyr Cylchdaith ac apeliadau gan Feistri a Barnwyr Rhanbarth;
- o ran achosion y Llys Gweinyddol, gwrando ar geisiadau am adolygiad barnwrol, apeliadau gan lysoedd is ar sail achos a ddatganwyd, ac apeliadau gan dribiwnlysoedd;

Yn y Llys Apêl (Adran Droseddol):

- penderfynu ar geisiadau am hawl i apelio fel Barnwr unigol neu fel aelod o'r llys llawn; a
- phenderfynu ar apeliadau fel aelod o'r llys llawn.

F. Gwaith arall

Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys, er enghraifft:

Yn yr Uchel Lys:

- penderfynu ar geisiadau am ganiatâd i apelio.

Cyfrifoldebau Eraill

G. Gwybod am ddatblygiadau cyfreithiol

- Mae angen i Farnwyr yr Uchel Lys fod yn ymwybodol o'r datblygiadau cyfreithiol diweddaraf. Mae hyn yn golygu cryn waith darllen nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r achosion y maent yn eu treialu.
- Mae angen i Farnwyr yr Uchel Lys fynychu seminarau gloywi a digwyddiadau tebyg gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol.

H. Dyletswyddau barnwrol a chyhoeddus eraill

- Mae rhai Barnwyr yr Uchel Lys yn eistedd o dro i dro yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth (ac mae un Barnwr yr Uchel Lys yn gwasanaethu fel Llywydd y Tribiwnlys).
- Gall Barnwyr yr Uchel Lys eistedd yn y Llys Apêl (Adran Sifil) fel Barnwyr ychwanegol y Llys hwnnw, ar gais yr Arglwydd Ganghellor.
- Dan adran 72(1)(3) Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, caiff rhai Barnwyr yr Uchel Lys eu penodi gan yr Arglwydd Brif Ustus (gyda

chytundeb yr Arglwydd Ganghellor) i wasanaethu fel Barnwyr Llywyddol. Mae Barnwyr Llywyddol yn ysgwyddo cyfrifoldebau megis goruchwylio'n ehangach weithrediad y llysoedd yn y Gylchdaith a neilltuwyd iddynt, lleoli Barnwyr yr Uchel Lys a Barnwyr Cylchdaith yn y Gylchdaith, a gofalu am les y farnwriaeth yn y Gylchdaith.

- Mae'n bosibl y bydd Barnwyr yr Uchel Lys yn gwasanaethu o dro i dro ar bwyllgorau, ymchwiliadau a chyrff eraill lle mae gofyn am wasanaethau uwch aelod o'r farnwriaeth (e.e. Bwrdd Parôl, Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, ayb). Mae Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith wastad wedi bod yn Farnwr yr Uchel Lys ar secondiad i'r Comisiwn am gyfnod y swydd.

Awdurdodaeth

Caiff strwythur ac awdurdodaeth yr Uchel Lys ei lywodraethu'n fras gan ddarpariaethau Deddf y Goruchel Lys 1981. Mae tair Adran yn yr Uchel Lys – Adran Mainc y Frenhines, yr Adran Siawnsri a'r Adran Deulu. Dylid nodi, fodd bynnag, bod awdurdodaeth yr Uchel Lys yn ddiwahân yn ôl y gyfraith ac mae'n perthyn i bob Adran fel ei gilydd. Ni waeth pa Adran a neilltuwyd iddynt, mae gan bob Barnwr Uchel Lys yr un pŵer, awdurdod ac awdurdodaeth.

Adran Siawnsri

i) Prif waith Adran Siawnsri'r Uchel Lys yw cyfreitha dadleuol yn ymwneud â materion masnachol neu ariannol megis datblygu eiddo, ceisiadau i feddiannu busnes, twyll cwmnïau a bancio, yn ogystal ag achosion eiddo deallusol yn cynnwys patentau, hawlfreintiau, nodau masnach, gwybodaeth gyfrinachol a "honiadau". Mae'r Adran hefyd yn arfer awdurdodaeth bwysig o ran methdaliadau a materion eraill yn ymwneud â chwmnïau, yn ogystal â nifer o awdurdodaethau arbennig eraill. Er enghraifft, mae'r achosion canlynol wedi'u neilltuo i'r Adran Siawnsri: pob achos yn ymwneud â chystadleuaeth p'un ai a ydynt dan Erthyglau 81 neu 82 Cytundeb yr UE, Deddf Cystadleuaeth 1998 neu Ddeddf Menter 2002, ceisiadau i'r Llys dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 1986 a deddfwriaeth yn ymwneud â gwahardd cyfarwyddwyr cwmnïau; apeliadau dan Ddeddf Ansolfedd 1986; ac amrediad eang o faterion dan y Deddfau Cwmnïau, yn cynnwys ystyried a yw cyfrifon cwmni'n cydymffurfio â darpariaethau'r Deddfau.

ii) Awdurdodaeth fwyaf traddodiadol yr Adran Siawnsri yw materion yn ymwneud ag eiddo (megis gweinyddu ystadau, partneriaeth, ad-dalu a blaen-gau morgeisi, gwerthu a rhannu elw o eiddo yn amodol ar lienau a phryniannau, ymddiriedolaethau, cadarnhau a chanslo gweithredoedd, perfformiad penodol contractau gwerthiant a lesio eiddo tiriog, a phrofiant dadleuol.

iii) Fel arfer, un Barnwr sy'n arfer awdurdodaeth apeliadol yr Adran Siawnsri (sy'n cynnwys yr holl apeliadau sy'n ymwneud â materion methdaliad o'r llysoedd sirol a Chofrestryddion yr Uchel Lys dan Ddeddf Ansolfedd 1986).

iv) Gall achosion patentau yn yr Adran Siawnsri gael eu clywed gan Farnwyr o'r Llys Patentau sy'n Farnwyr yr Uchel Lys a enwebwyd yn benodol gan yr Arglwydd Ganghellor i wneud y gwaith hwn. Gall unrhyw Farnwr yn yr Adran Siawnsri glywed achosion eraill yn ymwneud ag eiddo deallusol.

Adran Mainc y Frenhines

Adran Mainc y Frenhines sy'n delio â'r gwaith mwyaf amrywiol o blith tair Adran yr Uchel Lys. Mae'n arfer ei awdurdodaeth ar draws holl faes cyfraith sifil nad yw'r ddwy Adran arall yn delio â nhw, ond yn ymarferol, rhennir y gwaith i'r categorïau canlynol:-

i) Achosion Masnachol a'r Morlys. Mae'r rhan fwyaf o achosion y Morlys yn ymwneud â llongau'n gwrthdaro neu ddifrod i gargo, tra bo gwaith y Llys Masnachol yn delio'n bennaf â chontractau'n ymwneud â llongau, yswiriant, cludo cargo, a dyluniad a pherfformiad contractau masnach. Mae'r Llys Masnachol hefyd yn penderfynu ar achosion ym maes bancio, credyd rhyngwladol, contractau'n ymwneud ag awyrennau, prynu a gwerthu nwyddau, ac arferion cyflafareddu a'r cwestiynau a godir gan gyflafareddwyr. Caiff achosion y Morlys a'r Llys Masnachol eu clywed yn Llundain yn bennaf gan Farnwyr yr Uchel Lys a enwebwyd yn arbennig gan yr Arglwydd Ganghellor.

ii) Achosion Rhestr y Llys Gweinyddol (Cyfraith Weinyddol, yn enwedig adolygiad barnwrol, a Chyfraith Droseddol): Apeliadau drwy gyfrwng achos a ddatganwyd ayb gan dribiwnlysoedd is (yn enwedig Llysoedd Ynadon) yn ogystal ag awdurdodaeth oruchwylio dros is Lysoedd, Tribiwnlysoedd, Gweinidogion, Cyrff ac eraill sy'n arfer swyddogaethau Cyfraith Gyhoeddus. Caiff yr achosion hyn eu clywed yn Llundain gan Farnwyr unigol a enwebwyd gan yr Arglwydd Brif Ustus neu gan Lys Adrannol sy'n cynnwys Arglwydd Ustus ac un neu ddau Farnwr yr Uchel Lys, yn dibynnu ar ei bwysigrwydd cyhoeddus. Bydd Llys Adrannol Mainc y Frenhines hefyd yn arfer awdurdodaeth o ran Habeas Corpus, traddodi am ddirmyg mewn llys is neu'n rhywle arall (ond nid mewn cysylltiad ag achos yn yr Uchel Lys) ac apeliadau a cheisiadau dan amrywiol ddarpariaethau statudol yn cynnwys y rheini ar faterion cynllunio dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

iii) Materion sifil sy'n cynnwys rheithgor (ceir hawl i gael treial gyda rheithgor mewn achosion yn ymwneud â thwyll, enllib, athrod, erlyniad maleisus neu gam-garcharu. Ym mhob achos arall, mae gan y barnwr ddewis a yw am ganiatáu treial gyda rheithgor neu beidio, ond dan amgylchiadau eithriadol yn unig y gwneir hyn. Mewn treialon gyda rheithgor, y rheithgor sy'n penderfynu ar swm yr iawndal i'w dalu) (e.e. difenwi ac arestio ar gam), achosion sifil heb reithgor, ac achosion ac apeliadau gan Feistri a Barnwyr Rhanbarth. Caiff yr achosion hyn eu clywed yn Llundain ac yng Nghanolfannau'r Uchel Lys y tu allan i Lundain.